

2016 Rhif 760 (Cy. 195)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 23a (Magwyr), Sir
Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn),
Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd
yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach)
i Gyffordd 29A (Llaneirwg),
Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2016

Gwnaed 4 Gorffennaf 2016

Yn dod i rym 11 Gorffennaf 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (“traffordd yr M4”), a’r darn perthnasol o Draffordd yr A48(M) (“traffordd yr A48(M)”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o draffordd yr M4 a thraffordd yr A48(M) oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Gorffennaf 2016 a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd yr

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2206, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach) i Gyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 11 Gorffennaf 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau hynny o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr) yn Sir Fynwy a Chyffordd 34 (Meisgyn) ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a’r darn o draffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach) a Chyffordd 29A (Llaneirwg) yn Ninas a Sir Caerdydd, a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 4 Gorffennaf 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Darnau o draffordd yr M4

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 23a (Magwyr) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (y Coldra).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 24 (y Coldra) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (y Coldra).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 25 (Caerllion) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 25a (Pont Afon Wysg) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30 (Pentwyn).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn o'r gerbyttffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 29 (Casbach) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30 (Pentwyn).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 30 (Pentwyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30 (Pentwyn).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 32 (Coryton) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 34 (Meisgyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34 (Meisgyn).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 32 (Coryton) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 (Pentwyn).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 30 (Pentwyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 29 (Cas-bach).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 (Pentwyn).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 30 (Pentwyn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (High Cross).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Pont Afon Wysg).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Caerllion).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Pont Afon Wysg).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (y Coldra).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Caerllion).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 24 (y Coldra) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (y Coldra).

Darnau o draffordd yr A48(M)

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A48(M) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 29 (Cas-bach) hyd at ei chyffordd â'r A48 Eastern Avenue (Cyffordd 29a Llaneirwg).

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A48(M) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno wrth Gyffordd 29a (Llaneirwg) hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain traffordd yr M4.